



Cas-gwent i Sedbury ac yn ôl



Cas-gwent

Manylion y llwybr

Taith gerdded o Gas-gwent i Tutshill ac ymlaen i derfynfa ddeheuol Llwybr Clawdd Offa ger Sedbury.

Pellter:	5.3 milltir / 8.5 km
Man cychwyn:	Gorsaf drenau Cas-gwent
Cyfeirnod grid y man cychwyn:	ST 53641 93689
Disgrifiad what3words y man cychwyn:	cofnodwn.affaith.disgrifiad

Cychwyn

Dechreuwch yng ngorsaf drenau Cas-gwent a dilynwch y ffordd oddi wrthi. Cerddwch yn syth trwy groesffordd i gyrraedd goleuadau traffig a throwch i'r chwith i fynd trwy isffordd o dan brif ffordd brysur. Dringwch y grisiau a throwch i'r dde i gerdded tuag at eglwys plwyf Cas-gwent, neu Eglwys Priordy'r Santes Fair. Sefydlwyd hon gan Urdd Sant Bened (y Benedictiaid) yn 1072. Cadwch i'r chwith

o'r eglwys i gerdded i lawr llwybr concrit rhwng rheiliau haearn, sydd wedi'i arwyddo fel Llwybr Arfordir Cymru. Parhewch yn syth i lawr Lower Church Street i gyrraedd y Boat Inn, gan droi i'r chwith i ddilyn glan Afon Gwy a nodi nifer o nodweddion sy'n nodi diwedd Llwybr Arfordir Cymru. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cychwyn ar gyrion Caer ac yn ymestyn dros 870 milltir (1,400 km).

Croeswch Hen Bont Gwy, sef pont haearn bwrw dyddiedig 1816 a elwir hefyd yn Bont Cas-gwent neu'n Bont y Dref. Mae Cas-gwent yng Nghymru (Sir Fynwy), ond yn yn Lloegr (Swydd Gaerloyw) y mae Tutshill, yr ochr arall i'r bont. Cerddwch yn syth i fyny lôn ddi-draffig serth a chul, gan ddilyn arwydd yn nodi ei bod yn arwain at Llwybr Clawdd Offa. Trowch i'r dde ar y cyfle cyntaf i ddilyn lôn gul ddi-draffig arall, lle mae Llwybr Clawdd Offa wedi'i nodi gan logos mes nodedig. Dilynwch hi heibio i dai sydd wedi'u cuddio y tu ôl i waliau cerrig uchel. Cyn gynted ag y bydd y ffordd yn gwastatáu, trowch i'r dde i lawr llwybr

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR Cas-gwent i Sedbury ac yn ôl



serth, cul a chaeedig. Mae hwn yn troelli ac yn mynd heibio gerddi tai cyn dringo yn ôl i ffordd.

Trowch i'r dde ar hyd y ffordd, yna i'r dde eto i lawr ffordd arall i Sedbury. Trowch i'r dde ar hyd Wyebank Avenue, i'r chwith ar gyffordd, yna i'r dde, yn dilyn arwydd Llwybr Clawdd Offa i lawr llwybr cul a chaeedig. Dewch allan ar lethr glaswelltog ychydig islaw Wyebank Road a cherdded yn gyfochrog â'r ffordd nes bod llwybr arall yn disgyn i'r dde. Pan fydd yn ymuno â ffordd fynediad, cadwch i'r chwith i'w dilyn. Codwch yn raddol a mynd heibio'r tai yn Offa's Close a pharhau'n syth ymlaen ar hyd Mercian Way. (Mae'r ffordd yn dilyn llinell Clawdd Offa, ond does dim olion o'r hen wrthglawdd ar ôl.) Mae'r ffordd yn rhedeg i lawr yr allt ac yn troi i'r dde yn sydyn, felly trowch i'r chwith yn lle hynny ar hyd llwybr cul, caeedig arall.

Trowch i'r dde i lawr ffordd, yna croeswch bont droed ac ewch drwy giât mochyn. Croeswch wrthglawdd a dilynwch lwybr yn syth i fyny drwy gae, gan fynd drwy giât mochyn arall ar y brig. Croeswch ffordd, gan barhau i ddilyn arwyddion, ychydig i fyny ffordd fynediad fferm. Yn dilyn arwydd, trowch i'r dde drwy giât mochyn a cherddwch yn syth ymlaen yn ymyl cae. Ewch drwy giât mochyn arall a cherddwch yn syth ymlaen ar hyd crib glaswelltog Clawdd Offa wrth i'r arglawdd ddisgyn i gwm. Croeswch bont droed â giât a dringwch ychydig o risiau. Mae dringfa fer a serth yn arwain at glogfaen sy'n dwyn plac coffaol ar gyfer Llwybr Clawdd Offa, ar ben Clogwyni Sedbury.

Mae golygfa ar draws Aber Afon Hafren, sy'n cael ei rychwantu gan Bont Hafren. Dychmygwch droi rownd a dilyn Llwybr Clawdd Offa tua'r gogledd am 177 milltir (285 km) i Brestatyn ar arfordir gogleddol Cymru. Mae'r ardal gyfagos yn goediog iawn, ond cerddwch ychydig yn

syth i lawr yr allt i werthfawrogi'r llethr serth yr adeiladwyd y clawdd ar ei ben. Os gwnewch hyn, trowch i'r dde ar y gwaelod i ddychwelyd at y bont droed â giât.

Y cyfan sydd ar ôl yw dilyn y grisiau trwy Sedbury a Tutshill i ddychwelyd i Gas-gwent, gan ddilyn yr arwyddbyst a'r logos mes ar gyfer Llwybr Clawdd Offa. Fel arall, pan gyrhaeddir y ffordd gyntaf, trowch i'r chwith i gyrraedd lloches fws gerllaw. Gwasanaethir hon yn ddyddiol gan lond llaw o wasanaethau C4 Bysiau Casnewydd, ac eithrio dydd Sul.

Parcio: Parcio yng ngorsaf drenau Cas-gwent, Nelson Street, Welsh Street, Castle Dell a lleoliadau eraill o amgylch y dref.

Bysiau: Mae gwasanaethau bws dyddiol yn cysylltu Cas-gwent â Chasnewydd a Bryste. Mae bysiau lleol yn gwasanaethu Sedbury, ac eithrio dydd Sul.

Trenau: Mae trenau CrossCountry a Thrafnidiaeth Cymru dyddiol yn gwasanaethu Cas-gwent o Gaerdydd, Cheltenham Spa a Birmingham.

